# Canllawiau diogelwch Cyd-Undebol ar gyfer ysgolion a lleoliadau eraill

## Mesurau i arafu'r ymlediad mewn ysgolion a lleoliadau addysg eraill

Ionawr 2022

**Argyfwng Coronafeirws**
Canllawiau gweithle

GMB UNION
NASUWT The Teachers' Union
undeb addysg cenedlaethol cymru
UNISON the public service union
unite the UNION

# Mesurau i arafu'r ymlediad mewn ysgolion a lleoliadau addysg eraill – Ionawr 2022

Rydym unwaith eto yn wynebu adeg dyngedfennol arall yn y pandemig ym mis Ionawr 2022, gyda goruchafiaeth yr amrywiad Omicron. Cyhoeddwyd y cyngor hwn yn sgil y canllawiau a adnewyddwyd gan Lywodraeth Cymru, a bydd yn cael ei adolygu'n barhaus.

Mae Llywodraeth Cymru wedi symud y lefel y mae angen i ysgolion gadw ati yn y "Fframwaith penderfyniadau rheoli heintiau COVID-19 lleol ar gyfer ysgolion" i "Uchel iawn".

Ein blaenoriaeth, fel bob amser, yw amddiffyn addysg, ac mae hyn yn golygu cadw staff a myfyrwyr mor ddiogel â phosibl rhag effaith y firws. Trwy ddilyn ein harweiniad, gall ysgolion a lleoliadau eraill geisio lleihau'r risg o aflonyddwch.

Yn ôl ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) y tymor diwethaf, roedd gweithwyr addysg mewn mwy o berygl o brofi'n bositif am Covid-19 na'r boblogaeth yn gyffredinol oherwydd achosion uchel ymhlith plant ysgol. Mae hyn wedi arwain at lefelau uwch o absenoldeb staff ac aflonyddwch mewn ysgolion.

## Brechlynnau

Er mai dewis yr unigolyn ydyw, rydym yn annog pob aelod i gael ei frechu'n llawn ac i annog cydweithwyr i wneud hynny hefyd. Pwrpas brechu yw amddiffyn eich hun, eich cydweithwyr a'ch myfyrwyr mwy agored i niwed, eich cymuned, darparu addysg wyneb yn wyneb ac, yn y pen draw, gallu GIG Cymru i drin y rhai sydd â chyflyrau difrifol.

Lle bo angen, dylid caniatáu amser i ffwrdd gyda thâl i staff fel y gallant dderbyn eu pigiadau cyn gynted â phosibl. Mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn annog menywod beichiog yn arbennig i gael eu brechlynnau. Mae menywod beichiog heb eu brechu mewn mwy o berygl o salwch difrifol a genedigaeth cyn-dymor.

## Asesiadau risg

Mae'n hanfodol, ac yn ofyniad cyfreithiol, bod arweinwyr yn adolygu ac yn diweddaru asesiadau risg mewn ymgynghoriad â chynrychiolwyr undeb a staff, yn sgil yr amrywiad Omicron llawer mwy trosglwyddadwy.

- Dylai gweithdrefnau diwygiedig gael eu cyfleu'n glir i staff, myfyrwyr, rhieni / gofalwyr, staff sy'n gontractwyr, ymwelwyr a gweithwyr sy'n ymweld.
- Dylid monitro gweithrediad asesiad risg yn barhaus.
- Mewn ysgolion arbennig, dylai asesiadau risg diwygiedig adlewyrchu'n llawn yr heriau ychwanegol wrth amddiffyn disgyblion a staff.
- Dylid mynd i'r afael â sefyllfa'r staff mwyaf agored i niwed trwy asesiadau risg unigol. Er nad yw'n ofyniad gan Lywodraeth Cymru, nes ein bod yn gwybod mwy am yr amrywiad Omicron, mae'r cyd-undebau yn annog pob cyflogwr i ganiatáu i staff sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol a menywod beichiog i weithio gartref. Dylid hefyd cynnig yr opsiwn o rôl ddigyswllt gyda masgiau FFP2 / FFP3 i staff bregus. Mae cyngor undebol ar y cyd manylach ar gyfer staff sydd â mwy o risg hefyd ar gael.

## Awyru

- Erbyn hyn dylai pob lleoliad gael mynediad at fonitorau $CO_2$ a dylai mesurau awyru gadw $CO_2$ o dan 800ppm ym mhob ystafell ddosbarth a ddefnyddir.
- Dylai'r canlyniadau monitro $CO_2$ fwydo i mewn i asesiad risg, ac os yw'r lefelau'n uwch na 800ppm yn gyson, ac na ellir gwella'r awyru, yn naturiol neu'n fecanyddol, yna mae'r opsiynau'n cynnwys:
    - lleihau nifer y bobl yn yr ystafell.
    - lleihau'r amser y mae grwpiau'n ei dreulio yn yr ystafell.
    - gadael yr ystafell dros dro.
- Dylid darparu awyru atodol i unrhyw ardaloedd y nodwyd bod ganddynt lefelau o $CO_2$ sy'n uwch na 800ppm yn gyson, fel uned hidlo HEPA. Ni allwn argymell modelau penodol, ond mae'r rhestr hon yn cynnig ystod ehangach o opsiynau.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu canllawiau ar ddefnyddio monitorau $CO_2$. Gellir gweld canllawiau cyd-undebol ar awyru yma.

---

## Gorchuddion Wyneb ac OAP (*PPE*)

- Mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai gorchuddion wyneb gael eu gwisgo gan ddisgyblion a staff mewn ysgolion uwchradd. Mae hyn yn cynnwys ysgolion arbennig lle gall plant a phobl ifanc wneud hynny.
- Rhaid i ddisgyblion ym Mlwyddyn 7 ac uwch wisgo gorchudd wyneb wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus a chludiant ysgol pwrpasol.
- Ni ddylid atal unrhyw aelod o staff mewn unrhyw leoliad rhag gwisgo gorchudd wyneb yn unrhyw ran o'r adeilad.
- Dylid darparu offer amddiffyn personol (OAP), gan gynnwys masgiau gradd FFP2 neu FFP3 fel y bo'n briodol, ar gyfer staff sy'n gweinyddu cymorth cyntaf, gofal meddygol neu weithgareddau gofal personol lle na ellir cynnal pellter cymdeithasol, gan gynnwys ysgolion a meithrinfeydd arbennig.
- Dylid darparu OAP priodol ar gyfer yr holl staff arlwyo, glanhau ac ystadau.
- Dylid darparu masgiau FFP2 / 3 ar gyfer staff sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol neu sydd fel arall mewn risg sylweddol uwch yn y gweithle. (Dylai asesiadau risg gyfeirio a ddylai staff o'r fath fod yn gweithio gartref, a lle mae'n angenrheidiol, dylid cefnogi staff i wneud hynny).
- Lle mae disgyblion yn dibynnu ar ddarllen gwefusau, neu fynegiant wyneb i gyfathrebu, dylid gwisgo gorchuddion wyneb tryloyw.

# Pellter cymdeithasol

- Dylid ailgyflwyno mesurau i leihau cymysgu, er enghraifft cadw grwpiau mor gyson â phosibl. **Bydd unrhyw ystyriaeth i gyfuno dosbarthiadau i fynd i'r afael â phrinder staff yn cynyddu trosglwyddiad y firws, gan arwain at aflonyddwch pellach, ac felly ni ddylid ei fabwysiadu**
- Dylid ailgyflwyno systemau unffordd, lle nad ydynt bellach ar waith, i atal torfeydd mewn coridorau.
- Dylid ailgyflwyno cynlluniau eistedd, a mesurau eraill, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- Dylid osgoi cynulliadau mawr fel gwasanaeth ysgol gyfan neu grŵp blwyddyn gyfan / cyfnod allweddol, neu eu symud ar-lein. Ni ddylid cynnal cyfarfodydd staff a nosweithiau rhieni wyneb yn wyneb. Dylid eu cynnal ar-lein a dylent gael pellter cymdeithasol priodol wedi'i gynnal lle nad oes dewis arall ond iddynt gael eu cynnal yn bersonol.
- Dylid ailgyflwyno amseriadau anghyfnewidiol ar gyfer amser cinio, amser egwyl eraill, ac amseroedd cychwyn a gorffen.
- Dylid ailgyflwyno trefniadau diogel ar gyfer myfyrwyr a rhieni sy'n ciwio wrth gyrraedd, rhieni sy'n aros i gasglu myfyrwyr, staff sy'n goruchwylio myfyrwyr wrth gyrraedd neu adael, a derbyn ymwelwyr.

# Profi ac ynysu

- Dylai arweinwyr annog yn gryf i'r holl staff brofi deirgwaith yr wythnos, a bob dydd lle bo hynny'n bosibl, gan gynnwys cofrestru canlyniadau profion. Dylid cynghori ysgolion, staff a theuluoedd lle gallant gael mynediad at y profion.
- Er mwyn arafu lledaeniad Omicron, cyngor Llywodraeth Cymru yw y dylai'r bobl hynny sydd:
  - wedi'u brechu'n llawn
  - rhwng 5 a 17 oed
  - wedi'i nodi fel cyswllt â rhywun â Covid-19

  gymryd prawf llif unffordd (LFD) bob dydd am saith diwrnod.
- **Yn ogystal â phrofion LFD, ac i amddiffyn disgyblion / staff a theuluoedd eraill, byddai NEU Cymru yn annog brodyr / chwiorydd a chysylltiadau cartref eraill i aros gartref nes bod canlyniad prawf PCR negyddol wedi'i dderbyn.**
- Pan na all cysylltiadau agos gael gafael ar LFDs oherwydd materion cyflenwad, dylid eu cefnogi i weithio gartref am y cyfnod ynysu.
- Heb enwi unrhyw unigolion yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, byddem yn annog arweinwyr i hysbysu staff, rhieni, a myfyrwyr am unrhyw achosion positif, cyn gynted â phosibl.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi llythyrau templed "hysbysu", i'w hanfon i ddosbarth pan fydd un plentyn wedi profi'n bositif. Os yw dau wedi profi'n bositif yna mae pawb yn cynnal prawf LFD dyddiol a rhoddir llythyrau "rhybuddio a hysbysu".
- Dylai fod yn ofynnol i gontractwyr gydymffurfio â'r canllaw hwn a sicrhau tâl llawn am yr holl absenoldebau sy'n gysylltiedig â Covid. Dylai darparwyr addysg ymgysylltu â chontractwyr i sicrhau cysondeb wrth reoli pob agwedd ar fesurau lliniaru Covid-19 ar y safle.

## Prinder staff

- Dylid disgwyl i athrawon mewn ysgol (ac eithrio'r rhai a gyflogir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i gyflenwi, gan gynnwys athrawon cyflenwi) gyflenwi dros absenoldeb mewn amgylchiadau nad ydynt yn rhagweladwy. O ystyried natur barhaus y pandemig, gellir rhagweld absenoldeb athrawon o ganlyniad i Covid-19 a dylid cynllunio ar ei gyfer yn unol â hynny.
- Ni ddisgwylir i Gynorthwywyr Addysgu gyflenwi dros athrawon absennol. O ystyried natur barhaus y pandemig, gellir rhagweld absenoldeb athrawon o ganlyniad i Covid-19 a dylid cynllunio ar ei gyfer yn unol â hynny. Dylid trafod a chytuno ar unrhyw newidiadau arfaethedig mewn rôl neu gyfrifoldeb staff cymorth gyda'r aelod staff unigol a'u codi gyda'u hundeb pe bai ymholiad. Dim ond cynorthwywyr addysgu â chymwysterau addas (CALU fel arfer) y dylid gofyn iddynt arwain dosbarthiadau, a hyd yn oed wedyn, dim ond mewn sefyllfaoedd y gwyddys amdanynt ymlaen llaw, o dan gyfarwyddyd a goruchwyliaeth athro, ac nid ar sail amhenodol.
- Ni ddylid disgwyl, fel rheol, i athrawon gyflenwi ar gyfer cydweithwyr absennol, ac ni ddylid disgwyl iddynt ddysgu disgyblion nad ydyn nhw wedi cael eu penodi i'w haddysgu, h.y. disgyblion nad ydynt wedi cofrestru ar gyfer gwersi wedi'u hamserlennu gyda nhw, dosbarthiadau wedi'u lleihau neu gwasanaethau aml-ddosbarth. Nid yw cyflenwi yn ddefnydd effeithiol o amser athro ac mae cyfuno dosbarthiadau nid yn unig yn gyflenwi, ond bydd cynyddu nifer y disgyblion mewn ystafelloedd dosbarth, neu gael nifer fawr o ddisgyblion mewn neuaddau, hefyd yn cynyddu trosglwyddiad y firws.
- Mae amser CPA yn ofyniad statudol, o dan y STPC(W)D, ac ni ellir tresbasu arno. Dylai defnydd amser CPA fod yn ddyfarniad proffesiynol i athrawon.
- Lle mae disgwyl i athrawon gyflenwi fel mater o drefn, neu dderbyn disgyblion ychwanegol trwy gyfuno dosbarthiadau, dylid codi hyn ar frys gyda'u hundeb.
- Mewn ysgolion arbennig gall recriwtio staff addas ar gyfer staff absennol fod yn heriol ac yn aflonyddgar i ddisgyblion. Lle mae gan ysgolion brinder staff, dylent ddefnyddio asesiadau risg a thrafodaeth gyda chynrychiolwyr undeb, staff, a rhieni, i benderfynu a oes angen cyflwyno mesurau ychwanegol.

## Hylendid

- Mae angen ffocws o'r newydd ar well hylendid a chyfundrefnau glanhau ledled yr adeilad, gan gynnwys trefniadau ar gyfer golchi dwylo'n fanwl; ar gyfer cyflogi staff glanhau ychwanegol; ac am daliadau ychwanegol i staff glanhau ac ystadau am faich gwaith ychwanegol neu oriau ychwanegol a weithiwyd.


NEU2059/0122